Gwasanaethau Byw â Chymorth

GWEITHREDU AR GOLLED CLYW
CYMRU
Elusen genedlaethol ers 1911

Pwy ydym ni

Rydym yn arbenigwyr mewn darparu gwasanaethau byw â chymorth i bobl sy'n fyddar, yn ddall a byddar ac sydd â cholled clyw ac mae ganddynt anghenion cymorth ychwanegol. Gallwn gynorthwyo dynion a merched sydd dros 18 mlwydd oed ac arnynt ystod o anghenion cymhleth, megis anableddau dysgu neu anableddau corfforol, salwch meddwl ac anghenion cyfathrebu a all olygu bod pobl yn mynegi'u hunain drwy'u hymddygiad.

Rydym yn defnyddio ystod o dechnegau cyfathrebu priodol, rydym bob amser yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn annog proses gadarnhaol o gymryd risgiau ym mhob agwedd ar ein dull cynllunio ac adolygu gofal.

Sut y gallwn eich cynorthwyo

Byddwn yn rhoi cymorth ichi ganfod a chreu cartref sy'n ddiogel ac yn gyfforddus. Byddwn yn defnyddio ystod o offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn canfod ble rydych am fyw a'r pethau sy'n bwysig i chi. Byddwn hefyd gyda chi bob cam o'r ffordd er mwyn eich helpu i ganfod a rhentu eiddo addas.

Ar ôl ichi ddod o hyd i rywle i fyw, byddwn yn siarad â chi am y cymorth a ddymunwch a'r

cymorth sydd ei angen arnoch, a phryd y bydd ei angen arnoch. Efallai mai dim ond ychydig o gymorth y bydd ei angen arnoch, bob hyn a hyn, er mwyn eich helpu i ddod i adnabod eich cymuned leol, cynnal eich tenantiaeth, talu biliau a rheoli eich cyllid. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'n staff fod ar gael i chi 24 awr y dydd er mwyn eich cynorthwyo gyda phob agwedd ar fywyd o ddydd i ddydd – o godi a gwisgo, i reoli eich meddyginiaethau, gwneud dewisiadau byw'n iach, dysgu sgiliau newydd, mynd allan am dro a chreu rhwydweithiau cymdeithasol.

Pa bynnag gymorth sydd ei angen arnoch, byddwn yn gweithio gyda chi i greu pecyn cymorth sy'n seiliedig ar yr hyn mae arnoch ei eisiau. Mae hyn yn cynnwys creu cynllun cymorth sy'n canolbwyntio arnoch chi fel unigolyn, sy'n disgrifio'r hyn sy'n bwysig i chi, pa fath o fywyd yr hoffech ei gael, a pha help fydd ei angen arnoch er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Mae ein staff cyfeillgar wedi'u hyfforddi i ddiwallu'ch anghenion cymorth unigol, a byddant yn cyfathrebu â chi yn y ffordd sy'n fwyaf addas i chi – boed hyn yn iaith arwyddion, llawlyfr i bobl ddall a byddar, defnyddio lluniau ac awgrymiadau, neu'ch arwyddion unigryw eich hun. Mae ein dull cyfathrebu cyflawn yn golygu ein bod yn datblygu strategaethau i gyfathrebu â chi yn unigol, oherwydd gwyddom mai camddealltwriaeth yw'r ffactor unigol mwyaf cyffredin sy'n cyfrannu at straen a gorbryder.

Yr hyn sy'n bwysig i ni

- Darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae'r bobl rydym yn eu cefnogi ei eisiau a'r hyn y maen nhw'n ei hoffi
- Gwasanaethau Byw â Chymorth
- Yn eich helpu i fyw bywyd yn llawn
- Action on Hearing Loss yw enw masnachu'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar.
- Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926) A0655/1114
- Rydym wedi cael y nod barcud Making it Real
- Helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u galluoedd a'u dymuniadau
- Gweithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion y bobl rydym yn eu cynorthwyo
- Sicrhau bod y bobl rydym yn eu cynorthwyo yn hapus, yn ddiogel ac yn iach
- Cyfathrebu yn y ffordd sydd orau gan yr unigolyn, er enghraifft, laith Arwyddion Prydain, gwrthrychau cyfeirio a lluniau
- Gweithio fel tîm ac mewn partneriaeth â'r bobl rydym yn eu cynorthwyo, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill
- Sicrhau na chyfyngir ar gyfleoedd a boddhad oherwydd bod pobl yn fyddar neu wedi colli eu clyw
- Gwella a datblygu'r hyn a wnawn yn barhaus, er mwyn inni ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r bobl rydym yn eu cynorthwyo

Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud amdanom

"Rydych yn gwneud popeth yn dda – mae'r tîm yn gwneud ei orau, yn ddyddiol, i wneud bywyd fy mab yn un hapus a diogel ac i ddiwallu ei anghenion. Rwy'n gweld gwelliannau mawr bob tro rwy'n ymweld ac rwy'n teimlo'n ffodus iawn i ddod o hyd i le cystal ar gyfer fy mab."

- Rhiant person rydym yn ei gynorthwyo yng Nghanolbarth Lloegr

"Mae gan y gwasanaeth reolwr ardderchog, ymroddedig a brwdfrydig, a thîm staff ymroddedig a chadarnhaol. Mae pob aelod o'r staff yn ceisio cael y canlyniadau gorau o dan amgylchiadau heriol. Mae'r holl staff yn barod i ddysgu ac wedi gweithio'n dda iawn gyda fy nhîm. Mae'r ymarfer myfyriol a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn rhagorol. Mae'r staff wedi ymdopi'n dda yn wyneb ymddygiad heriol tu hwnt ."

- Gweithiwr cymdeithasol person rydym yn ei gynorthwyo yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr

"Mae dealltwriaeth dda o'r hyn y dylai cartref 'go iawn' fod – mae'n gyfforddus ac mae'r aelod o'r teulu yn hapus. Mae'r staff yn ofalgar iawn."

- aelod o deulu person rydym yn ei gynorthwyo yng Nghaint

Ble rydym ni

Ar hyn o bryd rydym yn darparu cymorth i bobl ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond rydym bob amser yn edrych am ffyrdd o gyrraedd mwy o bobl. Felly, os na allwch ddod o hyd i wasanaeth yn eich ardal chi, cysylltwch â ni oherwydd mae'n bosibl y gallwn ddatblygu rhywbeth newydd!

Cysylltu â ni

Cysylltwch â'n Cydgysylltydd Atgyfeiriadau os hoffech wneud y canlynol:

- cael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth
- atgyfeirio
- trefnu ymweliad
- cael sgwrs am sut y gallwn roi cymorth i chi!

0333 240 5659

referrals@hearingloss.org.uk

actiononhearingloss.org.uk/careandsupport

Action on Hearing Loss yw enw masnachu'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926). A1216/0319